

**BWS CYMRU COACHES 632B**

08/10/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, mae un o yrrwyr Cymru Coaches sydd yn rhedeg y gwasanaeth cludiant ar gyfer bws 632B wedi profi'n bositif am Cofid. Oherwydd hyn, mae disgwyl i bob disgybl sydd yn teithio ar fws y 632B i ynysu rhwng y 07/10/20 hyd at yr 22/10/20.

**Os oes gan eich plentyn bas bws i deithio ar fws y 632B, yna gwiriwch y [llythyr yma](#).** Os nad yw eich plentyn wedi teithio ar y bws yn ystod yr wythnos yma neu wythnos diwethaf (gweler y llythyr am ddyddiadau), yna cysylltwch gyda ni i drafod?

Yn anffodus, mae rhai disgyblion, sydd â phas bws i deithio ar y 632A, yn defnyddio'r 632B hefyd, er and oes pas penodol ganddyn nhw! **Felly os yw eich plentyn wedi defnyddio'r bws 632B yn ystod yr wythnos hon neu ar ddydd Mercher 30/09 – Gwener 02/10 wythnos diwethaf, bydd angen iddo / iddi hunan ynysu.** Rydym wedi gallu adnabod rhai disgyblion yn barod, ond nid o bosib pob un. Cysylltwch gyda ni i drafod os ydych yn ansicr?

**Os nad oes gan eich plentyn bas bws ar gyfer y 632B, neu os nad yw eich plentyn wedi teithio ar y bws, gwiriwch y [llythyr yma](#).**

**Nid oes caniatâd gan ddisgyblion i deithio ar fws nad ydynt yn gymwys i wneud h.y. os nad oes pas bws ganddyn nhw ar gyfer y llwybr yna. Byddwn yn gwirio pasys bws disgyblion yn aml cyn iddynt adael y safle yn y prynhawn. Gai apelio i bob riant i sicrhau bod eich plentyn yn teithio ar y bws cywir pob siwrnai, h.y. y bws mae ganddynt hwy bas bws ar ei gyfer?**

Os mae angen i'ch plentyn i hunan ynysu, yna byddwn yn gosod gwaith ar gyfer eich plentyn heddiw ar lwyfan Teams. Bydd y disgyblion sydd wedi derbyn cyfarwyddiadau i hunan ynysu oherwydd yr achos uchod yn gallu ymuno a'u gwersi yn rhithiol drwy 'Teams' o yfory ymlaen. Allwch sicrhau bod eich plentyn yn mynychu ei wersi? Os oes unrhyw anhawster e.e. angen benthg teclyn digidol, cysylltwch gyda Mrs Nerys Vaughan ([VaughanN9@hwbcymru.net](mailto:VaughanN9@hwbcymru.net)) neu Mr Omar Bechar ([BecharO@hwbcymru.net](mailto:BecharO@hwbcymru.net)) i wneud trefniadau.

Cysylltwch gyda ni os oes unrhyw gwestiwn pellach.

Yn ddiffuant,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe  
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU  
Ffôn 01792 560600

Ebost: [ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk](mailto:ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk)  
[www.bryntawe.swansea.sch.uk](http://www.bryntawe.swansea.sch.uk)



**BUDDSODDWYR  
MEWN POBL**

**Aur**



Pennaeth : Mr Simon Davies

